

# Eco-Sgolion Cymru

2024-2025

## Heriau Platinwm

Nod y heriau hyn yw i ysbrydoli profiadau amgylcheddol cadarnhaol, gan ddechrau yn yr ystafell ddosbarth ac ehangu i'r gymuned gan ymgysylltu'r genhedlaeth nesaf â dysgu seiliedig ar weithredu.

Eco-Sgolion
Eco-Schools

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

Rydym yn cydnabod y byddwch fel Ysgol Blatinwm yn chwilio am heriau newydd a chyffrous i gadw eich ysgol wedi'i hymgysylltu ag addysg amgylcheddol a sicrhau parhad eich taith Eco-Sgolion.

Mae'r heriau hyn wedi'u cynllunio i fynd â phobl ifanc ar daith ddyfnach i bynciau dethol Eco-Sgolion Cymru, gan ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o faterion amgylcheddol. Eu nod yw darparu dysgwyr â chyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau tra'n gweithredu gweithredoedd effeithiol ar gyfer newid cadarnhaol yn eich ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae'r heriau hyn yn estyniad dewisol i'r gwaith a'r gweithredoedd y byddwch wedi'u cwblhau yn barod fel rhan o'ch taith Eco-Sgolion. Chi a'ch Eco-Bwyllgor sy'n penderfynu faint o'r heriau rydych yn dewis cymryd rhan ynddynt. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi eich cynnydd a'ch canlyniadau yn eich Cynllun Gweithredu Eco-Sgolion.

Cysylltwch â'ch swyddog Eco-Sgolion os hoffech gael mwy o arweiniad ar gyfer yr heriau hyn.

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

Rydym wedi cysylltu'r heriau â'r pynciau Eco-Sgolion perthnasol, yn ogystal â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy hyn sy'n eu cefnogi. Os hoffech ddysgu mwy am Eco-Sgolion a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yma.

## Rhowch wybod i ni sut hwyl rydych yn ei gael:

Cyflwynwch eich stori neu rannu eich gwaith drwy e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol!

# Awyrennau neu Papur?

Mae ôl-droed ein papur yn uwch nag y byddwn yn ei ddychmygu. Yn wir, mae un dogfen ymchwil gan y Rhwydwaith Papur Ewropeaidd yn amcangyfrif y gallai'r allyriadau tŷ gwydr o'r diwydiant papur fod yn uwch na'r rhai o deithiau awyr! Nid yw hyn yn gwadu bod hedfan yn cynhyrchu symiau mawr o nwyon tŷ gwydr er mwyn aros yn yr awyr - y broblem yw bod ein defnydd byd-eang o bapur yn enfawr.




Mwy am y diwydiant papur:

BRITANICA: rhaglenni 2-3 | rhaglenni 3-4 |rhalgenni 4- 5

Why is paper's carbon footprint so large?

Paper Waste Stats from The World Counts

Fel cymdeithas fyd-eang, rydym yn defnyddio papur i ysgrifennu arno, darllen llyfrau, lapio anrhegion, postio eitemau, sychu ein pen-olau, glanhau gollyngiadau, anfon cyfarchion a llawer mwy.
Yn syfrdanol, rydym yn defnyddio digon bapur tŷ bach i ymestyn o gwmpas y byd bob **10 munud!**

Ydych chi'n gallu cyfri'r nifer o weithiau rydych chi wedi defnyddio papur heddiw? Ydych chi'n gwybod o ble mae wedi dod? Beth wnaethoch chi gyda'r papur ar ôl gorffen ei ddefnyddio?

Rydym yn gwneud, defnyddio a thaflu papur ar raddfa enfawr. Pan rydym yn gweithio yn y ffordd linellog hon, mae adnoddau'n cael eu gwastraffu ac rydym yn gwastraffu ein hadnoddau naturiol. Mae angen i ni wneud pethau'n wahanol a chymryd ysbrydoliaeth o'r byd naturiol. Mae angen cael gwared ar wastraff, cylchu adnoddau ac adfywio natur; mae angen i ni gau'r ddolen a chreu economi gylchol.

Beth yw economi gylchol?

**Y Cwricwlwm i Gymru – Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

**Dyniaethau**

**2.3.1** Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, y presennol a'r dyfodol.

**2.3.3** Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**2.3.5** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.

**Mathemateg a rhifedd**

**2.5.4** Mae ystadegau'n cynrychioli data, siawns modelau tebygolrwydd, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

**Gwyddoniaeth a thechnoleg**

**2.6.2** Mae meddwl dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol o ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

Nodau Datblygu Cynaliadwy

12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION | 13 CLIMATE ACTION | 15 LIFE ON LAND

**Pynciau Eco-Sgolion:**
Dinasyddiaeth Fyd-eang | Lleihau Gwastraff | Egni | Iechyd, Byd a Lles

# **Her**: Creu ymgyrch i ddangos effaith y diwydiant papur byd-eang ac archwilio'r defnydd o bapur yn eich ysgol.

**Ymchwil:** Defnyddiwch y dolenni yn yr wybodaeth gefndirol i ddysgu mwy am y broses gwneud papur, ei hanes ac effaith y diwydiant heddiw. Archwiliwch bapur cynaliadwy a sut i leihau eich ôl-troed. Dechreuwch gyda'r dolenni hyn:
FyAilgylchuCymru: Papur
FSC labels | Forest Stewardship Council UK
wwf_paper_guide.pdf

**Archwilio:** Pa mor gylchol yw defnydd eich ysgol o bapur? Ydy'r cynhyrchion yn dod o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu? Ydyn nhw'n dod o weithgynhyrchwr cynaliadwy? Ydy cynhyrchion papur yn cael eu hailgylchu lle bo'n bosibl? Ystyriwch amrywiaeth o gynhyrchion gan gynnwys papur tŷ bach, llyfrau gwaith a phapur llungopïo.

**Gweithredu:** Mae ymgyrchoedd ysgol gyfan yn gyfle gwych i rymuso dysgwyr ac y ffyrdd effeithiol i fynd i'r afael â materion lleol neu fyd-eang. Dyluniwch a chynnal ymgyrch yn eich ysgol i amlygu ffyrdd i wneud eich defnydd o bapur yn fwy cylchol a chynaliadwy.
Defnyddiwch y camau hyn i'ch helpu i (mwy o wybodaeth yma):

1. Trafod Syniadau
2. Cynllunio eich Nodau
3. Cyfathrebu
4. Gweithredu
5. Monitro Llwyddiant
6. Dathlu, Myfyrio a Gwerthuso

Mae'n bwysig i fonitro eich defnydd o bapur yn ystod y prosiect, fel eich bod yn gwybod os yw eich gweithredoedd wedi gweithio! Gallwch gyfrifo eich ôl-troed yn Paper Calculator 4.0 | Environmental Paper Network.

**Rhannu:** Mae cynnal ymgyrch yn ymwneud a hysbysu a bod mor ymgysylltiol â chymaint o bobl â phosibl a gwneud yn siŵr eu bod yn eich cefnogi. Rhaid i chi ystyried yn ofalus y neges yr ydych eisiau ei chyfleu a sut i sicrhau bod y gynulleidfa yn eich deall. Rhowch wybod i'ch cymuned pa newidiadau rydych yn gobeithio eu gwneud. Dywedwch wrthynt beth allan nhw ei wneud a darganfod a oes unrhyw syniadau am sut i helpu. Rhannwch eich llwyddiannau, bach a mawr, i helpu i gadw pawb wedi'i ymgysylltu ac yn angerddol am yr ymgyrch.

**Ymestyn:** Gadewch i'r gymuned ehangach wybod yr hyn rydych yn ei wneud. Ysgrifennwch erthygl y gellir ei rhannu ar rwydweithiau megis ffynonellau newyddion lleol, Straeon Eco-Sgolion ac ar eich cyfryngau cymdeithasol / cylchlythyron. Cofiwch gynnwys ffeithiau a chyngor syfrdanol ar sut i leihau defnydd.

**Cael eich Ysbrydoli (Ysgol Bryn Coch, Yr Wyddgrug):**

Gall taflenni gwaith arbed llawer o amser, ond maen nhw'n gwastraffu llawer o bapur. Gallwch dyllu eich llyfrau gwaith a mewnosod taflenni gwaith. Nid oes angen defnyddio glud, gallwch argraffu ar y ddwy ochr, a gwastraffu llai o bapur drwy wneud hyn.

Am ragor o syniadau edrychwch ar yr awgrymiadau da hyn gan Gyfeillion y Ddaear i weld sut arall y gallech leihau eich ôl troed papur yn eich cymuned ysgol ewch i: Paper - things we can do

# Cadwyni Cyflenwi Cynaliadwy

Mae gan bopeth rydym yn eu defnyddio stori i'w hadrodd a thaith i'w rhannu. Er, rydym yn gwella o ran meddwl am yr hyn rydym yn ei wneud gyda'n pethau ar ôl i ni eu defnyddio, rydym yn aml yn anghofio meddwl o ble y daw ein cynnyrch, pwy oedd yn rhan o'u gwneud, y cymunedau y maent yn byw ynddynt a'r effaith ar ein hamgylchedd. Enw'r daith y mae cynnyrch yn ei deithio i'ch cyrraedd chi, y defnyddiwr, yw'r gadwyn gyflenwi. Mae gan bopeth rydym yn eu prynu gadwyn gyflenwi, ond mae rhai yn fwy moesegol a chynaliadwy nac eraill.

Mwy am [Gadwyni Cyflenwi Moesegol]

Yn Eco-Sgolion Cymru, credwn y dylem arwain drwy esiampl.

Mae ein Baneri Gwyrdd wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf; rydym wedi peidio â defnyddio fflagiau polyester ac wedi dod o hyd i ffabrig llawer mwy cynaliadwy. Ar ôl ymchwil gofalus, rydym yn falch o fod wedi partneru â chwmni bach, moesegol sy'n cefnogi cymunedau gwledig bach yn India, sy'n tyfu cywarch organig sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i wneud ein Baneri Gwyrdd.



Mwy am yr [Faner]

**Cwricwlwm i Gymru – Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

**Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu**

**2.4.3** Mae mynegi ein hunain trwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Mathemateg a rhifedd**

**2.5.1** Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

**Gwyddoniaeth a thechnoleg**

**2.6.2** Mae meddwl dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol o ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

**2.6.3** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

**Dyniaethau**

**2.3.1** Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

**2.3.3** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, dan ddylanwad prosesau a gweithredoedd dynol.

**2.3.4** Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol.

**2.3.5** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.

**Iechyd a Lles**

**2.2.3** Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill.

**2.2.4** Mae sut rydym yn ymgysylltu â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydym ni ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

Nodau Datblygu Cynaliadwy

5 GENDER EQUALITY | 10 REDUCED INEQUALITIES | 12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION | 13 CLIMATE ACTION | 15 LIFE ON LAND

**Pynciau Eco-Sgolion:**

Dinasyddiaeth Fyd-eang | Lleihau Gwastraff | Egni | Iechyd, Byd a Lles

**Her**: Ymchwiliwch eich gwisg ysgol, darganfod o ble mae'n dod a pha effaith mae'n ei chael, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

**Ymchwil:** Yn 2023, diweddarwyd canllawiau gwisg ysgol statudol ysgolion ar gyfer ysgolion yng Nghymru: Gwisg ysgol ac ymddangosiad: canllawiau polisi ar gyfer cyrff llywodraethu

Yn y canllawiau newydd cafodd llawer mwy o bwyslais ei roi ar gynnig gwisg ail law a fforddiadwy. Mae hyn wedi arwain at gynnydd gwirioneddol gadarnhaol yn y nifer sy'n dewis gwisg ysgol ail law ledled Cymru. Yn ogystal, mae ysgolion yn cael eu hannog i edrych ar bwy sy'n cyflenwi eu gwisg ysgol ac, os yn bosibl, cynnig dewis o gyflenwyr i sicrhau cynwysoldeb. Ond o ble mae'r cyflenwyr hyn yn cyrchu eu dillad, a pha effaith maen nhw'n ei chael ar y bobl sy'n cynhyrchu'r ffabrig ac yn gweithgynhyrchu'r dillad rydyn ni'n eu gwisgo?

**Ymchwilio**: Pa mor gynaliadwy yw eich gwisg ysgol? Ewch i'r afael â'r her hon fel petaech yn newyddiadurwr ymchwiliol sy'n teithio'n ddwfn i daith eich dillad ac yn benodol gwisg ysgol. Mae eich gwisg ysgol yn cynnwys amrywiaeth o ddillad, ac mae'n debyg eu bod yn dod o amryw o leoedd, mae eich siwmper ysgol yn lle gwych i ddechrau eich ymchwiliad gan ei bod yn debygol bod gan bob un o'ch disgyblion un ohonynt. Darganfyddwch pwy sy'n gwneud y siwmper ac edrychwch ar eu gwefan; a oes ganddynt unrhyw wybodaeth am o ble y daw neu beth yw eu cynaliadwyedd? O ba ddeunydd y mae wedi'i wneud ac ai dyma'r opsiwn gorau i sicrhau ei fod yn fforddiadwy, yn gost-effeithiol ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd?

**Gweithredu**: Nawr bod yr wybodaeth gennych, cynlluniwch ddigwyddiad neu ymgyrch a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â'r diwydiant ffasiwn a thecstilau a sut y gall ein dewisiadau effeithio ar yr amgylchedd. Cofiwch ei gysylltu â'ch gwisg ysgol ac ystyried sut y bydd eich neges yn annog newid.

Beth ydych chi wedi'i ddarganfod am daith eich gwisg ysgol a phwy / beth sy'n cael ei effeithio ar hyd y ffordd? Ydych chi'n hapus â'ch canfyddiadau neu a ydych am i newidiadau gael eu gwneud er mwyn cynnig opsiwn mwy cynaliadwy i ddysgwyr?

**Rhannu**: Rydych chi wedi creu eich ymgyrch a nawr mae'n amser ei rhannu gyda'ch cymuned! Mae'n bwysig eich bod yn gwybod a yw eich ymgyrch yn gweithio. Ydych chi'n gallu gofyn i aelodau o'ch cymuned gwblhau cyfweliadau neu arolygon er my rhoi gwybod i chi os yw eu barn wedi newid.


**Ymestyn:** Creu flog arddull dogfennol sy'n dilyn eich ymchwiliad a gellir ei rannu ar ddiwedd y prosiect i godi ymwybyddiaeth, ochr yn ochr â deunyddiau ymgyrchu eraill. Defnyddiwch yr adnodd hwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu i gynllunio a strwythuro'r blog**:** Flogio dros Natur: Creu flog amgylcheddol

# Ble mae'r Trychfilod wedi mynd?

[MWY AM DRYCHFILOD]

Datblygodd trychfilod ar y ddaear ymhell cyn bodau dynol ac maent yn cyfrif am dros 50% o'r rhywogaethau ar ein planed heddiw. Mae tua 1 miliwn o rywogaethau o drychfilod hysbys; ac mae gwyddonwyr yn darganfod mwy yn gyson. Mae trychfilod yn chwarae rhan hanfodol yn ein heco-system; mae iechyd ein planed yn dibynnu arnyn nhw.




SPLAT! ? Gofynnwch i rywun o genhedlaeth hŷn sut oedd y ffenestr flaen yn edrych ar ôl taith car. Mae'n debyg y byddan nhw'n dweud wrthych chi y byddai'r ffenestr flaen wedi'i gorchuddio â thrychfilod wedi'u gwasgu a pha mor anodd oedd hi i'w glanhau o'r ffenestr. Ych a fi! Ond mae pethau'n wahanol nawr, mae pobl yn sylwi ar lawer llai o drychfilod wedi'u gwasgu ar eu ffenestri. Yr enw am hwn yw Ffenomen y Ffenestr Flaen.

Pam fod hyn wedi digwydd? A yw trychfilod wedi gwella wrth groesi ffyrdd neu a oes ateb mwy trist? Yn ôl BugLife ac elusennau cadwraeth eraill, mae nifer y trychfilod sy'n poblogi'r blaned wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gan ein bod yn dibynnu ar drychfilod i helpu i beillio ein cnydau, rheoli plâu a chefnogi cadwyni bwyd, mae'n bwysig dechrau gwneud popeth yn ein gallu i helpu ein ffrindiau bach!

**Cwricwlwm Cymru – Datganiadau'r Hyn sy'n Bwysig**

**Mathemateg a rhifedd**

**2.5.1** Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

**2.5.4** Mae ystadegau'n cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus

**Gwyddoniaeth a thechnoleg**

**2.6.1** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagweld ffenomenau.

**2.6.2** Mae meddwl dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol o ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

**2.6.3** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

**Dyniaethau**

**2.3.1** Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

**2.3.2** Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

**2.3.3** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, dan ddylanwad prosesau a gweithredoedd dynol.

**2.3.5** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.

**Iechyd a Lles**

**2.2.2** Mae sut rydym yn prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

**2.2.3** Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill.

Nodau Datblygu Cynaliadwy




**Pynciau Eco-Sgolion:**

Dinasyddiaeth Fyd-Eang | Tiroedd yr Ysgol | Bioamrywiaeth

# **Her**: Dewch yn ddinesydd-wyddonwyr gweithgar ac ymunwch â'r mudiad i achub poblogaethau pryfed byd-eang.

**Ymchwil:** Mae yna nifer o arolygon gwyddoniaeth dinasyddion sy'n casglu data am boblogaethau trychfilod. Mae pob un ychydig yn wahanol ac yn cyflawni pwrpas gwahanol. Archwiliwch yr ystod o arolygon, edrychwch ar y gwahanol fathau o ddata sy'n cael eu casglu a sut y gall helpu gwyddonwyr i ddeall beth sy'n digwydd i bryfed.

Mae gan rwydwaith OPAL Citizen nifer o arolygon y gellir eu defnyddio. Dyma ddolen i'w Arolwg Cyfrif Trychfilod .

Mae gan yr Amgueddfa Hanes Cenedlaethol lawer o wybodaeth am sut y gallwch helpu: Monitro ac annog natur leol

**Ymchwilio**: Casglwch ddata am y trychfilod yn eich ardal leol. Dewiswch un neu fwy o'r arolygon gwyddoniaeth dinasyddion yr hoffech gymryd rhan ynddynt, ac sy'n berthnasol i'ch ysgol a dysgwyr eraill.

Efallai y byddwch am ofyn i ddosbarthiadau neu glybiau eraill gymryd rhan a'ch helpu i gasglu data am boblogaeth trychfilod yn eich ardal leol. Gallech hefyd ofyn i'r gymuned ehangach gymryd rhan a chasglu data y tu allan i dir yr ysgol.

Cofiwch, ni fyddai'n bosibl cynnal pob arolwg trwy gydol y flwyddyn felly bydd angen i chi gynllunio ar gyfer y rhain os ydych am gymryd rhan. Er enghraifft, mae arolwg BugsMatter yn cael ei chynnal rhwng Mai a Medi.

**Rhannu**: Cynnal digwyddiad dysgu am drychfilod. Gwahoddwch bobl yn eich cymuned i ddod i'ch ysgol er mwyn i chi allu rhannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu a gwneud yn siŵr bod hyd yn oed mwy o bobl yn gwybod am helpu trychfilod. Gallech ddefnyddio hwn fel cyfle i godi arian at elusen trychfilod neu i wario ar wella gardd yr ysgol.

**Gweithredu:** Sut mae'ch ysgol yn gallu helpu'r argyfwng trychfilod byd-eang?
Defnyddiwch eich gwybodaeth i gynllunio gweithredoedd / digwyddiadau i helpu trychfilod. Ewch i ymgyrch No Insectinction am syniadau ar sut y gallwch helpu.

**Ymestyn**: Ydych chi wedi clywed am BioBlitz? Mae'n ffordd anffurfiol a hwyliog o greu ciplun o'r amrywiaeth o fywyd sydd i'w gael mewn ardal. Ehangwch eich dealltwriaeth o fioamrywiaeth yn eich ardal trwy fynychu neu gynnal BioBlitz. Gallwch ddarganfod mwy am BioBlitz yma.

**Cael eich Ysbrydoli (Ysgol Y Gelli Gandryll, Powys):**

Nid oes angen cemegau cas, sy'n lladd trychfilod, i helpu eich gardd i dyfu! Aeth plant Ysgol Gynradd y Gelli Gandryll i'r afael â'r broblem, gan dynnu danadl poethion gormodol o'u cae chwarae a'u troi'n wrtaith ar gyfer gardd eu hysgol.



Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Eco-Sgolion
Eco-Schools

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy


33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767 keepwalestidy.cymru eco-schools@keepwalestidy.cymru



Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13

Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 8503958 13